

» [Dilynwch y cyngor ar gyfer coronafeirws \(COVID-19\)](#)

[Cuddio](#) X

[Hafan](#) > [Hysbysiadau](#) > [Holl hysbysiadau](#) > Datganiad Ysgrifenedig: Dull Cymru o ymdrin â chymwysterau yn 2021

DATGANIAD CABINET

Datganiad Ysgrifenedig: Dull Cymru o ymdrin â chymwysterau yn 2021

Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg

Cyhoeddwyd
gyntaf:
10 Tachwedd 2020

Diweddarwyd
ddiwethaf:
10 Tachwedd 2020

Rwy'n bwriadu rhoi cyfarwyddyd i Cymwysterau Cymru na ddylid cynnal arholiadau diwedd blwyddyn ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a gymeradwyir gan Cymwysterau Cymru yn 2021.

Rhannu'r dudalen hon: [Twitter](#) [Facebook](#) [Email](#)

Mae hyn yn unol ag argymhellion Cymwysterau Cymru a'r Adolygiad Annibynnol.

Y prif reswm dros fy mhenderfyniad yw tegwch; bydd yr amser y bydd dysgwyr yn ei dreulio mewn ysgolion a cholegau yn amrywio'n aruthrol ac, yn y sefyllfa hon, mae'n amhosibl gwarantu chwarae teg i gynnal arholiadau.

- Yn hytrach nag arholiadau, bwriadwn weithio gydag athrawon i ddatblygu asesiadau dan reolaeth athrawon.
- Dylai hyn gynnwys asesiadau a fydd yn cael eu gosod a'u marcio yn allanol, ond eu cynnal yn y dosbarth o dan oruchwyliaeth athrawon.
- Rwy'n disgwyl iddynt gael eu defnyddio fel sylfaen ar gyfer canlyniadau gan ganolfannau, gyda dull cenedlaethol y cytunwyd arno i sicrhau cysondeb ar draws Cymru.

Byddaf yn cyflwyno Datganiad Llafar yn ddiweddarach heddiw, lle byddaf yn rhoi mwy o fanylion ac yn rhoi cyfle i Aelodau'r Senedd ofyn cwestiynau.

Rwyf hefyd wedi anfon llythyr at bob ysgol uwchradd a choleg yn rhoi gwybod iddynt am fy mhenderfyniad.

Cyhoeddwyd gyntaf

10 Tachwedd 2020

Diweddarwyd ddiwethaf

10 Tachwedd 2020

[Adrodd am unrhyw beth sy'n bod gyda'r dudalen hon](#)

[Rhannu'r dudalen hon](#)

[Nôl i dop y dudalen](#)

[Kysylltu â ni](#) [Hygyrchedd](#) [Datganiad hawlfraint](#) [Cwcis](#) [Preifatrwydd](#) [Telerau ac amodau](#) [leithoedd amgen](#)